COFNODION CYFARFOD Y PWYLLGOR CRAFFU TESTUN 3 A GYNHALIWYD YN REMOTELY - VIA MICROSOFT TEAMS DYDD LLUN, 18 GORFFENNAF 2022, AM 09:30

Presennol

Y Cynghorydd P Davies – Cadeirydd

| | | | |
|---|---|---|---|
| S J Bletsoe | N Clarke | C Davies | M J Evans |
| MJ Kearn | W J Kendall | J E Pratt | G Walter |
| I Williams | MJ Williams | | |

Ymddiheuriadau am Absenoldeb

P W Jenkins

Swyddogion:

| | |
|---|---|
| Lucy Beard | Swyddog Craffu |
| Meryl Lawrence | Uwch Swyddog Gwasanaethau Democrataidd - Craffu |
| Jessica Mclellan | Swyddog Craffu |

1. DATGANIADAU O FUDDIANT

Dim

2. CYMERADWYO COFNODION

PENDERFYNWYD: Derbyn Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Trosolwg Pwnc a Chraffu 3 a gynhaliwyd ar 24 Ionawr 2022 fel rhai gwir a chywir.

3. ENWEBU HYRWYDDWR RHIANTA CORFFORAETHOL

Cyflwynodd y Swyddog Craffu yr adroddiad, a oedd yn gofyn i'r Pwyllgor enwebu un Aelod fel ei Hyrwyddwr Rhianta Corfforaethol i gynrychioli'r Pwyllgor fel gwahoddedig i gyfarfodydd Pwyllgor y Cabinet ar faterion Rhianta Corfforaethol.

Gwahoddodd y Cadeirydd enwebiadau, ac yn dilyn hyn

PENDERFYNWYD: Enwebu'r Cynghorydd Jonathan Pratt i gynrychioli'r Pwyllgor Trosolwg Pwnc a Chraffu 3 fel gwahoddedig i gyfarfodydd Pwyllgor y Cabinet ar faterion Rhianta Corfforaethol.

4. ENWEBIAD I BANEL CRAFFU Y BWRDD GWASANAETHAU CYHOEDDUS

Cyflwynodd y Swyddog Craffu yr adroddiad, a oedd yn gofyn i'r Pwyllgor enwebu un Aelod i eistedd ar Banel Craffu y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.

Gwahoddodd y Cadeirydd enwebiadau, ac yn dilyn hyn

PENDERFYNWYD: Bod y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Testun 3 yn enwebu'r Cynghorydd Colin Davies i fod yn aelod o Banel Craffu y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.

5. DIWEDDARIAD AR Y BLAENRAGLEN WAITH

Cyflwynodd yr Uwch Swyddog Gwasanaethau Democrataidd – Craffu y Flaenraglen Waith amlinellol ddrafft arfaethedig yn Atodiad A i'r Pwyllgor ei thrafod a'i hystyried. Gofynnodd am unrhyw wybodaeth benodol roedd y Pwyllgor wedi'i nodi i'w chynnwys yn yr eitemau ar gyfer y ddau gyfarfod nesaf, gan gynnwys gwahoddedigion roeddynt yn dymuno iddynt fynychu. Gofynnodd i'r Pwyllgor nodi unrhyw eitemau pellach i'w hystyried yn y Flaenraglen Waith, gan roi ystyriaeth i'r meini prawf dethol ym mharagraff 4.6, a gofynnodd i'r Pwyllgor nodi y byddai'r Flaenraglen Waith ar gyfer y Pwyllgor yn cael ei chyflwyno i gyfarfod COSC, yn dilyn cylch cyfarfodydd SOSC mis Gorffennaf.

Datganodd y Cynghorydd Norah Clarke fuddiant personol fel cyn-wirfoddolwr gyda Credu, nad oedd bellach yn bodoli.

Gofynnodd y Pwyllgor i'r adroddiadau canlynol gael eu hychwanegu i'r Flaenraglen Waith, a gofynnodd i'r cynrychiolwyr a restrir o dan bob adroddiad gael gwahoddiad i fynychu yn ôl y trefniadau:

a) Adroddiad ar offer chwarae hygyrch mewn mannau chwarae a mynediad at ardaloedd chwarae, parciau a phafiliynau meysydd chwarae, i'r gymuned anabl ledled y Fwrdeistref Sirol, a'r Cynllun Asesu a Gweithredu diweddaraf yn unol â deddfwriaeth Cydraddoldeb.

   Cynrychiolwyr y gofynnwyd amdanynt:
   - Anabledd Cymru - Miranda Evans
   - Swyddogion sy'n gyfrifol am Asesiad a Chynllun Gweithredu Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae BCBC
   - Defnyddwyr Gwasanaeth / Sefydliad rhai cyfleusterau
   - Y Bont - Julia Shaw

b) Adroddiad ar Adfywio Porthcawl i gynnwys prosiectau Adfywio Porthcawl, Ffocws Buddsoddi Cyrchfan Gwyliau Porthcawl (PRIF), Cosy Corner a Phafiliwn y Grand.

   Cynrychiolwyr y gofynnwyd amdanynt:
   - Partneriaid a rhanddeiliaid allanol e.e. Credu / cyn-gynrychiolwyr a oedd yn ymwneud â'r PRIF.
   - Cynrychiolydd Croeso Cymru (mewn perthynas â gwaith PRIF)
   - Ymddiriedolaeth Ddiwylliannol Awen – fel rheolwr Pafiliwn y Grand, Porthcawl

Gofynnodd y pwyllgor bod y cynrychiolwyr canlynol yn cael eu gwahodd ar gyfer yr adroddiadau canlynol a drefnwyd ar gyfer cyfarfod mis Medi:

- Ar gyfer adroddiad y Gronfa Ffyniant Gyffredin, y Swyddogion arweiniol priodol.
- Ar gyfer yr adroddiad Codi'r Gwastad, y Swyddogion arweiniol priodol a chynrychiolydd o Ymddiriedolaeth Ddiwylliannol Awen, fel rheolwyr Pafiliwn y Grand, Porthcawl

PENDERFYNWYD: Bod y Pwyllgor wedi ystyried a chytuno ar y Flaenraglen Waith amlinellol ddrafft arfaethedig yn Atodiad A, yn amodol ar gynnwys yr adroddiadau a gwahoddedigion uchod y gofynnwyd amdanynt, a nodwyd y byddai'r Blaenraglenni Gwaith ar gyfer y Pwyllgorau Trosolwg Pwnc a Chraffu yn cael eu cyflwyno i gyfarfod COSC, yn dilyn y cylch nesaf o gyfarfodydd SOSC.

6. EITEMAU BRYS

Dim

Daeth y cyfarfod i ben am 10:10